PWYLLGOR PENODI - CYFARWYDDWR CYNORTHWYOL, GWASANAETHAU OEDOLION

DYDD LLUN, 24 MEDI 2018

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Elsmore(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Bowen-Thomson, Hinchey, McKerlich a/ac Williams |

9 : YMDDIHEURIADAU (OS O GWBL)

Nid oedd ymddiheuriadau i'r cyfarfod hwn.

10 : DATGAN BUDDIANNAU

Doedd dim datganiadau buddiannau ar gyfer y cyfarfod hwn.

11 : CYLCH GORCHWYL

Nodwyd y Cylch Gorchwyl fel a ganlyn:

*"Cyflawni swyddogaethau'r awdurdod mewn perthynas â phenodi a diswyddo Prif Swyddogion a Dirprwy Brif Swyddogion (fel y'u diffinnir yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Gorchmynion Sefydlog) (Cymru) 2006) a Phennaeth statudol y Gwasanaethau Democrataidd, yn unol â Rheolau Gweithdrefnau Cyflogaeth ac unrhyw bolisïau a gweithdrefnau perthnasol eraill y Cyngor".*

12 : COFNODION CYFARFOD 3 MEDI 2018

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Medi 2018 fel gwir gofnod.

13 : EITHRIO'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD: Y dylid gwahardd y cyhoedd yn ystod y drafodaeth ar yr eitem fusnes ganlynol ar y sail y datgelid gwybodaeth a eithrir, fel y'i diffinnir yn Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac fel y'i diffinnir isod, i aelodau'r cyhoedd pe byddent yn bresennol yn ystod y drafodaeth, oherwydd natur y busnes i'w drafod.

Paragraff 12 – Gwybodaeth sy'n ymwneud ag ymgeisydd yn dod yn gyflogai i'r Awdurdod:-

Paragraff 13 – Gwybodaeth a oedd yn debygol o ddatgelu pwy oedd yr unigolyn.

## 14 : PENODI CYFARWYDDWR CYNORTHWYOL, GWASANAETHAU OEDOLION

Cafodd y Pwyllgor Penodi ar gyfer swydd Cyfarwyddwr Cynorthwyol y Gwasanaethau Oedolion ei ailymgynnull i dderbyn ac ystyried canfyddiadau'r Ganolfan Asesu.

Cyflwynodd Mandy Sarah Cook, yr Aseswr Arweiniol Allanol, ganfyddiadau'r ymarferion canolfannau asesu a rhoddwyd y sgoriau cyffredinol ar gyfer pob un o'r cymwyseddau ymddygiadol oedd eu hangen ar gyfer y rôl gan ymgeiswyr 1, 2, 7 ac 11.

Wrth wneud ei benderfyniad, gwnaeth y Pwyllgor ystyried cais gwreiddiol pob ymgeisydd, sut wnaeth yr ymgeisydd sgorio yn erbyn y cymwyseddau oedd eu hangen ar gyfer y rôl, yr asesiad ysgrifenedig ar bob un o'r tasgau oedd yn mynd ar ôl cryfderau a sgiliau'r ymgeiswyr.  Cytunodd y Pwyllgor ar yr ymgeiswyr fyddai'n symud ymlaen at gyfweliad ffurfiol.

Gwnaeth y Pwyllgor ystyried yr opsiynau pwnc a gosod cwestiynau ar gyfer y broses gyfweld.

PENDERFYNWYD:

1. Y byddai ymgeisydd 2 yn cael ei wahodd i gyfweliad.

2. Y byddai'r ymgeisydd yn cael gwybod testun y cyflwyniad ac y byddai'n cael uchafswm o 10 munud ar ei gyfer.

3. Y byddai'r cwestiynau terfynol yn cael eu gorffen ar gyfer y Pwyllgor cyfweld.

## 15 : DISWYDDO (OS OES ANGEN)

Nid oedd angen unrhyw ddiswyddo dilynol fel rhan o'r broses o lunio rhestr hir.

## 16 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF - 8 HYDREF 2018

Cytunwyd ar ddyddiad y cyfarfod nesaf – dydd Llun 8 Hydref 2018 am 09:30am.